# JONES, DAVID (1772 - 1854), gweinidog gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol

**Enw:** David Jones
**Dyddiad geni:** 1772
**Dyddiad marw:** 1854
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn nyffryn Ceidrych, Llangadog. Cafodd beth addysg, ac'aeth yn saer maen. Bedyddiwyd ef, yn 27 oed, gan Moses Williams, gweinidog Bedyddwyr Cyffredinol Pontbren-Araeth, yn 1799. Yn y rhwyg a ddaeth ar Fedyddwyr y de-orllewin yn y flwyddyn honno, meddiannodd y blaid Arminaidd yn Salem Llangyfelach d  cwrdd bychan yng Nghlydach (Cwm Tawe) o'r enw ' Capel-y-Cwar,' a godwyd gan Salem yn 1795. Yn 1804, ar gymhelliad Moses Williams, urddwyd David Jones yn weinidog arnynt - noder nad oedd ef na hwythau na Moses Williams, ar hyd yr amser, yn ddim ond Arminiaid Trindodaidd. Bu David Jones yno am 50 mlynedd; llafuriai'n ddiwyd, gan bregethu yn y Cwar, yn Foxhole (Llansamlet), yn Nhreforris, ac ym Mhontardawe, heblaw cadw ysgol yn y Cwar ac yn Foxhole (W. Samlet Williams, *Hanes Llansamlet*, 94); câi ddogn blynyddol o drysorfa'r Bedyddwyr Cyffredinol yn Llundain, o 1818 hyd ei farwolaeth. Yn 1848, edrydd fod ganddo 50 o aelodau. Ond cododd y Bedyddwyr Neilltuol gapel (Bethania) yng Nghlydach yn 1841, a chorfforwyd eglwys ynddo yn 1844. O dipyn i beth, llithrai'r Arminiaid drosodd i Fethania, a theyrngarwch i'r hen weinidog yn unig a gadwai eglwys y Cwar ar ei thraed. Bu David Jones farw 24 Ionawr 1854, yn 81 mlwydd oed. Aeth yr 11 aelod gweddill yn unfryd i Fethania.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

W. R. Watkin, *Y Bedyddwyr yng Nghlydach*, 11-8

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732846

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu